

Gweithgaredd 3b) Pam arfau? – Adroddiad sganiwr i'r Cyngor Ysgol

© Copyright of Gwent Police
© Hawlfraint Heddlu Gwent

# YSGOL UWCHRADD HIGHTOWN

**Memo gan y Pennaeth, Mr Solomon**
**At sylw pob aelod o'r Cyngor Ysgol**

**EITEM AGENDA CYNGOR YSGOL**

**ADRODDIAD SGANIWR**
**(I'w drafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Ysgol i'w gynnal ar ….)**

Mae datgelwyr metel yn olygfa gyfarwydd mewn meysydd awyr, gemau pêl-droed, cyngherddau, clybiau nos ac amgueddfeydd.

- Mae sganwyr yn canfod yn gyflym bersonau sy'n cario cyllyll neu arfau.
- Mae nifer o ysgolion yn dechrau defnyddio datgelwyr metel ond gall hyn fod yn ddadleuol.
- Cred rhai bod eu defnydd mewn ysgolion yn ffordd dda o fynd i'r afael â throseddau cyllyll, ond mae llawer o athrawon ac Aelodau Seneddol yn ei weld fel bygythiad i hawliau sifil.
- Mae'r ddadl yn ymddangos fel petai am barhau am amser hir ond mae datgelwyr metel wedi bod yn gyffredin mewn ysgolion yn yr Unol Daleithiau ers nifer o flynyddoedd, wedi eu goruchwylio gan swyddogion diogelwch ac athrawon.
- Mae technoleg arall allai helpu i ddatgelu arfau yn cynnwys systemau teledu cylch cyfyng.
- Mae nifer o ysgolion wedi gweld bod teledu cylch cyfyng yn arwain at welliannau eraill, yn cynnwys:
  - lleihad mewn trais
  - lleihad mewn fandaliaeth a graffiti
  - lleihad yn nifer y disgyblion yn cario cyffuriau ac arfau i'r ysgol
  - lleihad mewn lladradau
  - gwelliant cyffredinol yn ymddygiad disgyblion

© Copyright of Gwent Police
© Hawlfraint Heddlu Gwent